



# Gofal Cymdeithasol Cymru – proffil gweithlu 2018: Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a Reoleiddir



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government


# Cynnwys

Crynodeb	2
Cefndir	3
Deall y data	4
Dadansoddiad data	5
Dadansoddiad pellach	7
Atodiad A – Y ffurflen casglu data	17
Atodiad B - Tablau ychwanegol	18
Atodiad C – Ein methodoleg briodoli	26

Cynhyrchwyd gan yr: Data **Cymru**

Cyhoeddi: Tachwedd 2019


[www.data.cymru](http://www.data.cymru)

 029 2090 9500

 [ymholiadau@data.cymru](mailto:ymholiadau@data.cymru)





Adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

230 o wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir yng Nghymru



11,900

yn gweithio i'r gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir



## Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau allweddol o gasgliad data gweithlu gwasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir (gwasanaethau a reoleiddir) Gofal Cymdeithasol Cymru 2018. Ei nod yw helpu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ac awdurdodau lleol i ddeall y gweithlu yn well.
- Mae gwasanaethau a reoleiddir yn wasanaethau sy'n cyflenwi gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol Cymru ac yn cael eu rheoleiddio gan Arolygiad Gofal Cymru (AGC).
- Cymerodd pob un o 22<sup>1</sup> awdurdod lleol Cymru ran yng nghasgliad 2018 a darparu ymatebion.
- Trafododd yr ymatebion 86% o wasanaethau a reoleiddir ar draws Cymru, gan gynnwys data a adeiladwyd. Roedd cwmpas datganiadau awdurdodau lleol unigol yn amrywio o 25% mewn un awdurdod lleol i 100% mewn 15 awdurdod arall<sup>2</sup>.
- Gan ddefnyddio dulliau amcangyfrif, roeddem yn gallu amcangyfrif data gweithlu cyfanredol am yr holl wasanaethau a reoleiddir a arolygwyd gan awdurdodau lleol Cymru.
- Arolygwyd dros 230 o wasanaethau a reoleiddir ar gyfer yr adroddiad hwn.
- Amcangyfrifwn fod gan y gwasanaethau a reoleiddir hyn weithlu o ychydig o dan 12,000 o staff.

---

<sup>1</sup> Mae Blaenau Gwent a Chaerffili yn cynnal gwasanaeth ar y cyd.

<sup>2</sup> Cyfraddau ymateb a ddychwelwyd ac a adeiladwyd yw'r rhain.

## Cefndir

Bob blwyddyn mae awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth am weithlu darparwyr gofal cymdeithasol allanol sy'n cael eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau gan awdurdodau lleol Cymru.

Ers 2013, mae Cyngor Gofal Cymru (CCW), sydd bellach yn cael ei alw'n Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)<sup>3</sup>, wedi ein comisiynu ni, Data **Cymru** (Uned Ddata Cymru gynt), i weithio gydag awdurdodau lleol i gasglu a dadansoddi gwybodaeth am weithlu'r darparwyr gofal hyn a gomisiynwyd<sup>4</sup>.

Yn hwyr yn 2017, estynnwyd y gwaith casglu a dadansoddi data'r gweithlu i gwmpasu gweithlu gwasanaethau awdurdodad lleol a reoleiddir (gwasanaethau a reoleiddir) h.y. gwasanaethau sy'n cyflenwi gofal cymdeithasol yng Nghymru, sydd ym mherchnogaeth awdurdodau lleol Cymru a/neu'n cael eu rheoli ganddynt ac sy'n cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r 2018 casgliad am wasanaethau a reoleiddir.

---

<sup>3</sup> Unodd Cyngor Gofal Cymru â'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) ar 1 Ebrill 2017 i greu Gofal Cymdeithasol Cymru.

<sup>4</sup> Mae'r adroddiad hwn ar gael ar [wefan](#) Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd.

## Deall y data

Gofynnwyd i awdurdodau lleol arolygu holl wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir (gwasanaethau a reoleiddir) h.y. gwasanaethau sy'n cyflenwi gofal cymdeithasol yng Nghymru, a reolir gan awdurdodau lleol Cymru ac a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Gallai hyn gynnwys darparwyr gofal preswyl, darparwyr gofal cartref a gofalwyr maeth awdurdodau lleol, ond nid yw'n cynnwys gwasanaethau gofal dydd.

Cawsom ymatebion oddi wrth bob un o'r 22<sup>5</sup> awdurdod lleol.

Roedd yr ymatebion a gawsom yn cyfuno:

- Data a gasglwyd yn uniongyrchol oddi wrth ddarparwyr gofal a gomisiynwyd (data 'a ddychwelwyd'); a
- Data a 'adeiladwyd' gan yr awdurdodau lleol gan ddefnyddio data a oedd ar gael yn lleol o 2017.

Gwelir copi o ffurflen casglu data 2018 yn [Atodiad A](#).

## Ansawdd data

Am mai dyma ail flwyddyn casglu'r data hwn yn genedlaethol, bu gwelliant sylweddol yn ansawdd y data gan ein bod wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i osgoi'r problemau a brofwyd yn y flwyddyn gyntaf. Rydym wedi llwyddo i wella cyflawnrwydd y set ddata hefyd drwy 'adeiladu' data coll awdurdodau lleol gan ddefnyddio data a oedd ar gael yn lleol o 2017.

Er gwaethaf gwelliannau yn ansawdd y data eleni, ni allwn ddarparu cymhariaeth ddibynadwy â'r llynedd. Mae llawer o ffactorau a allai ddylanwadu ar wahaniaethau yn y data o un flwyddyn i'r llall. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau ym maint a/neu fath o ddarparwyr a arolygwyd a swm y data a oedd wedi ei amcangyfrif. Fel y cyfryw, nid yw'n hysbys i ba raddau mae'r gwahaniaethau hyn yn cynrychioli newid go iawn. Lle bo'n briodol, rydym wedi rhoi sylwadau ar batrymau ar draws rhai categorïau data a sut mae hyn yn cymharu â'r llynedd.

## Cyfraddau ymateb

Ledled Cymru yn 2018, dychwelwyd 84% o'r 232 o ffurflenni casglu data a gyhoeddwyd, a oedd yn amrywio o 13% mewn un awdurdod lleol i 100% mewn 14 o rai eraill. Adeiladodd awdurdodau lleol ddata am 5 gwasanaeth ychwanegol a reoleiddir yn 2018, gan ddod â'r gyfradd ymateb gyffredinol i 86% ar gyfer 2018.

Gwelir data am nifer y gwasanaethau a reoleiddir a gynhwysir yn y dadansoddiad hwn fesul awdurdod lleol yn [Tabl 7](#) o [Atodiad B](#).

## Amcangyfrif am ddata coll

I ddarparu amcangyfrifon rhanbarthol a chenedlaethol o weithlu gwasanaethau a reoleiddir, bu'n rhaid amcangyfrif data am y darparwyr gofal a gomisiynwyd a fethodd ag ymateb, a lle nad oedd data 2017 ar gael i 'adeiladu' datganiad ar gyfer 2018 arno. Mae'r broses hon yn cael ei galw'n 'priodoli'. Mae manylion y broses briodoli ar gael i'w gweld yn [Atodiad C](#).

Er ein bod wedi derbyn neu briodoli am 100% o'r darparwyr a arolygwyd, nid yw amcangyfrifon priodoledig awdurdodau lleol yn ddigon ddibynadwy at ddiben dadansoddi. Fodd bynnag, rydym wedi darparu rhywfaint o ddadansoddiad rhanbarthol lefel uchel.

Oherwydd natur y data, roeddem ond yn gallu amcangyfrif data lefel Cymru am gyfanswm y staff mewn swydd ar ddiwedd y flwyddyn adrodd.

---

<sup>5</sup> Mae Blaenau Gwent a Chaerffili yn cynnal gwasanaeth ar y cyd.

## Dadansoddi'r data

Mae'r dadansoddiad sy'n dilyn yn cyfuno data a gasglodd awdurdodau lleol yn uniongyrchol oddi wrth eu gwasanaethau a reoleiddir a data a gafodd naill ai ei adeiladu neu ei briodoli h.y. ei amcangyfrif ar sail gwybodaeth ychwanegol. Gan hynny mae rhywfaint o 'wall anhysbys' ynghlwm wrth y data. Mae'r gwall anhysbys hwn yn cynyddu po fwyaf o ddata wedi ei adeiladu a'i briodoli a ddefnyddir i bennu'r amcangyfrifon. Fel y cyfryw, nid oes modd trin y data fel cyfrifon union a dylech ei ddefnyddio gyda gofal.

Mae gofal cymdeithasol yn wasanaeth a gynigir gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Ar sail y data a ddarparwyd i ni, ychydig dros 232 o wasanaethau a reoleiddir gan awdurdod lleol a ddarparodd ofal cymdeithasol i awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2018.

Amcangyfrifir bod y gwasanaethau a reoleiddir hyn yn cyflogi ychydig dros 11,900 o bobl ledled Cymru. Dengys **Tabl 1** amcangyfrif fod nifer y staff a gyflogir gan wasanaethau a reoleiddir yn amrywio ar draws rhanbarthau.

**Tabl 1: Nifer y gwasanaethau a reoleiddir ac amcangyfrif o nifer y staff a gyflogir, fesul rhanbarth, 2018<sup>6</sup>**

	<b>Gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir</b>	<b>Staff a gyflogir gan gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir (amcangyfrif)</b>	<b>Staff a gyflogir gan gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir am bob 1,000 o'r boblogaeth</b>
Gogledd Cymru	52	2,500	4
Canolbarth & Gorllewin	40	2,000	3
Bae'r Gorllewin	53	3,000	6
De-Dwyrain	87	4,500	3
<b>Cymru</b>	232	12,000	4

Casglwyd data ar sail y math o ofal a ddarperir. Mae'r rhain wedi eu categorio fel:

- Preswyl (a rennir yn breswyl gyda gofal nyrsio a phreswyl heb ofal nyrsio);
- Cartref;
- Dydd ac arall (cyfuniad o ofal dydd a gwasanaethau eraill nad ydynt yn dod o dan yr un o'r categorïau eraill); a
- Cymysg (mwy nag un o'r uchod).

Roedd gan wasanaethau a reoleiddir awdurdodau lleol yng Nghymru nifer uwch o ddarparwyr gofal preswyl (113 darparwyr) nag unrhyw fath arall o ddarparwr gofal yn ystod 2018. Roedd y darparwyr gofal preswyl hyn yn cyflogi 4,200 o bobl ledled Cymru yn ôl yr amcangyfrif. Dengys **Tabl 2** y mathau o wasanaethau a reoleiddir ac amcangyfrif o nifer y staff a gyflogir.

<sup>6</sup> Daw'r ffigurau poblogaeth a ddefnyddiwyd am y cyfrifiad o Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Flwyddyn 2017 a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.




**Tabl 2: Nifer y gwasanaethau a reoleiddir yn ôl math ac amcangyfrif o nifer y staff a gyflogir, Cymru, 2018**

	<b>Gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir</b>	<b>Staff a gyflogir gan gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir (amcangyfrif)</b>
Preswyl	113	4,000
Cartref	43	4,000
Dydd ac arall	70	3,500
Cymysg	6	500
Cyfanswm	232	12,000

Dengys **Ffigur 1** mai darparwyr gwasanaethau a reoleiddir, yn 2018, a gyflogodd y ganran uchaf o staff ar draws y mathau o ddarparwyr yng Nghymru.

**Ffigur 1: Canran y staff a gyflogir gan wasanaethau a reoleiddir yn ôl math o ddarparwr, Cymru, 2018**



## Dadansoddiad pellach

Rhydd yr adran hon ddadansoddiad manylach o weithlu gwasanaethau a reoleiddir. Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys dim ond y data a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol; gan gynnwys data sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio datganiadau data y llynedd (data a 'adeiladwyd'). Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cyfran yn unig (86%) o wasanaethau a reoleiddir ac, fel y cyfrw, dylid eu defnyddio gyda gofal. Gwelir manylion pellach y cyfraddau ymateb ledled Cymru yn [Tabl 7](#) o [Atodiad B](#).

## Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a Reoleiddir


### Math o ddarpariaeth

Ledled Cymru, darparodd y mwyafrif (53%) o wasanaethau a reoleiddir ofal preswyl yn 2018, gan amrywio o 100% yn Sir y Fflint a Sir Benfro i 0% yng Nghaerdydd a Thorfaen. Darparodd 25% o wasanaethau a reoleiddir wasanaethau dydd ac eraill, darparodd 19% wasanaethau gofal cartref a darparodd 3% o wasanaethau a reoleiddir wasanaethau 'cymysg'. Gan Gastell-nedd Port Talbot oedd y gyfran uchaf o wasanaethau dydd ac eraill (81%), tra bod gan Gaerdydd y gyfran fwyaf o wasanaethau gofal cartref (67%).

Dengys [Ffigur 2](#) fod:

- Canran y gwasanaethau a reoleiddir a oedd yn cynnig **gofal preswyl** yn amrywio o 48% o'r rhai a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol ym Mae'r Gornllewin i 57% yn y De-ddwyrain;
- Awdurdodau lleol yn y Canolbarth a'r Gornllewin oedd â'r ganran isaf o **wasanaethau gofal cartref** a reoleiddir at 8%, tra bod gan Ogledd Cymru yr uchaf ar 29%;
- Awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru oedd â'r ganran isaf o **wasanaethau gofal dydd ac arall** a reoleiddir at 13%, tra bod gan y Canolbarth a'r Gornllewin yr uchaf ar 34%;
- Gan Fae'r Gornllewin oedd y ganran isaf o wasanaethau **darpariaeth gymysg** a reoleiddir sef 0%, tra bod gan Ogledd Cymru yr uchaf ar 8%.

**Ffigur 2: Canran darparwyr gofal a gomisiynwyd yn ôl math, fesul rhanbarth, 2018**



## Cleientiaid

Yng Nghymru, darparodd 25% o wasanaethau a reoleiddir wasanaethau i blant, darparodd 37% wasanaethau i oedolion<sup>7</sup> a darparodd 52% wasanaethau i bobl hŷn. Darparodd 3% wasanaethau i grwpiau cleientiaid 'eraill'<sup>8</sup>.

Darparodd 63% o wasanaethau a reoleiddir yng Nghastell-nedd Port Talbot wasanaethau i blant. Dyma'r ganran uchaf ledled holl awdurdodau lleol Cymru gan 13 pwynt canrannol, yr uchaf nesaf oedd Conwy gyda 50% o wasanaethau a reoleiddir yn darparu gwasanaethau plant. Nid oedd yr un o'r gwasanaethau a reoleiddir yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Sir Benfro na Bro Morgannwg yn darparu gwasanaethau i blant.

Roedd canran y darparwyr gofal a ddarparodd wasanaethau i bobl hŷn yn amrywio o 17% yn Wrecsam i 100% yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Nid oedd yr un o'r gwasanaethau a reoleiddir yn Sir y Fflint yn darparu gwasanaethau i oedolion, o'u cymharu â 70% yn Sir Fynwy.

Dengys **nifer a** chanran gwasanaethau a reoleiddir yn ôl grŵp cleientiaid ar lefel ranbarthol.

**Tabl 3** nifer a chanran gwasanaethau a reoleiddir yn ôl grŵp cleientiaid ar lefel ranbarthol.

**Tabl 3: Nifer a chanran gwasanaethau a reoleiddir yn ôl grŵp cleientiaid, yn ôl rhanbarth, 2018<sup>9</sup>**

	Nifer			%		
	Plant	Oedolion	Pobl hŷn	Plant	Oedolion	Pobl hŷn
Gogledd Cymru	7	11	25	18	29	66
Canolbarth & Gorllewin	9	15	18	24	39	47
Bae'r Gorllewin	16	17	19	35	37	41
De-Dwyrain	17	31	42	22	40	55
<b>Cymru</b>	<b>49</b>	<b>74</b>	<b>104</b>	<b>25</b>	<b>37</b>	<b>52</b>

## Maint y sefydliad

Cyflogai'r mwyafrif (37%) o wasanaethau a reoleiddig yng Nghymru rhwng 10 a 25 o staff. Cyflogai 14% fwy na 100 o staff, tra bod dim ond 5% yn cyflogi llai na deg o staff. Ledled Cymru, roedd gan wasanaethau dydd ac arall y nifer uchaf o sefydliadau yn cyflogi llai na deg o staff (16%), tra bod gan wasanaethau gofal cartref y nifer uchaf o sefydliadau â mwy na 100 o staff (37%). Dengys **Tabl 4** ganran y darparwyr gwasanaeth a reoleiddir yn ôl maint eu sefydliad a'r math o ddarparwr.

**Tabl 4: Canran y gwasanaethau a reoleiddir yn ôl maint y sefydliad, yn ôl math o ddarparwr, 2018**

	Maint y corff (staff a gyflogir)				%
	llai na 10	10 – 25	26 – 50	51 – 100	mwy na 100
Preswyl	2	35	48	12	3
Cartref	0	29	5	29	37
Dydd ac arall	16	51	6	8	18
Cymysg	0	17	67	0	17

<sup>7</sup> Mae 'oedolion' yn cynnwys oedolion ag anableddau dysgu, oedolion â salwch meddwl ac oedolion ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau.

<sup>8</sup> Gan y gall darparwyr ddarparu gwasanaethau i fwy nag un grŵp cleientiaid, mae'n bosibl na fydd data yn adio i 100%.


<sup>9</sup> Ibid

## Proffil staff

### Rolau

Yn yr un modd ag yn 2017, roedd mwyafrif (61%) y staff a gyflogir gan wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yn Weithwyr Gofal, Swyddogion Gofal neu'n Gynorthwyyr Gofal, fel y dangosir yn **Ffigur 3**. Roedd y ganran a oedd yn Weithwyr Gofal, Swyddogion Gofal neu'n Gynorthwyyr Gofal yn amrywio o 23% yn Nhorfaen i 89% yn Sir y Fflint. Nid oedd unrhyw Gynorthwyyr Personol Taliadau Uniongyrchol yn cael eu cyflogi gan wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru ac roedd llai nag 1% o staff yn Staff Nyrsio Cofrestredig.

**Ffigur 3: Canran y staff a gyflogwyd gan wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2018<sup>10</sup>**



Rhydd **Tabl 5** ddadansoddiad o'r staff a gyflogwyd gan wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl a math o ddarparwr. Parhaodd gwasanaethau gofal cartref i gyflogi'r ganran uchaf o Weithwyr Gofal, Swyddogion Gofal neu Gynorthwyyr Gofal sef 87%, o'u cymharu â 6% a gyflogwyd gan wasanaethau gofal dydd ac arall. Roedd Uwch Weithwyr Gofal yn cyfrif am 8% o'r staff a gyflogwyd gan wasanaethau gofal cymysg, o'u cymharu â 0.5% mewn gwasanaethau dydd ac arall.

**Tabl 5: Canran y staff a gyflogir gan wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl a math o ddarparwr, 2018**


	%									
	Rheolwr	Dirprwy Rheolwr/Rheolwr Cynorthwyol	Uwch Weithiwr Gofal	Gofal, Swyddogion Gofal neu Gynorthwyyr Gofal	Gweithwyr Cymdeithasol Cofrestredig	Staff Nyrsio Cofrestredig (ac eithrio rheolwyr)	Gofalwyr Maeth	Gofalwyr Lleoliad Oedolion	Cynorthwyyr Personol a Delir yn Uniongyrchol	Staff Eraill
<b>Preswyl</b>	2.7	2.8	5.2	71.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	18.3
<b>Cartref</b>	1.4	1.5	6.8	87.3	0.4	0.0	0.0	0.0	0.0	2.6
<b>Dydd ac arall</b>	1.5	1.3	0.5	6.4	7.4	0.6	66.3	11.1	0.0	4.9
<b>Cymysg</b>	2.4	2.4	8.4	73.9	0.0	0.0	0.0	7.4	0.0	5.5

<sup>10</sup> Mae staff eraill yn cynnwys unrhyw staff eraill sydd heb eu cynnwys yn y rolau eraill e.e. garddwyr, gyrrwyr ac ati.

## Cymwysterau

Dengys **Ffigur 4** ganran y staff (ac eithrio gweithwyr cymdeithasol cofrestredig a staff nyrsio cofrestredig) o fewn gwasanaethau a reoleiddig yr adroddwyd bod ganddynt y cymwysterau gofynnol/a argymhellir am eu rôl.

**Ffigur 4: Canran staff o gwasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2018**



Gwelir manylion pellach am wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/a argymhellir yn ôl rôl am bob math o ddarparwr gofal yn **Ffigur 11** o **Atodiad B**.

Roedd gan 91% o reolwyr gwasanaethau a reoleiddir ledled Cymru y cymwysterau gofynnol/ a argymhellir, gan amrywio o 61% yn Abertawe i 100% mewn 13 o awdurdodau lleol eraill, tra bod gan 85% o ddirprwy reolwyr/rheolwyr cynorthwyol ledled Cymru y cymwysterau gofynnol/ a argymhellir, gan amrywio o 50% yn Rhondda Cynon Taf i 100% mewn wyth awdurdodau lleol arall.


Roedd gan 78% o staff a gyflogwyd fel uwch weithwyr gofal y cymwysterau gofynnol/a argymhellir. Roedd hyn yn amrywio o 11% ym Mro Morgannwg i 100% ym Merthyr Tudful a Chaerdydd.

Cyflawnodd 7% o staff gwasanaethau a reoleiddir eu cymwysterau gofynnol/a argymhellir yn ystod 2018, tra bod 9% o staff yn parhau i weithio tuag atynt.

## Recriwtio a chadw

During 2018, cafodd dros 1.050 o staff eu recriwtio gan wasanaethau a reoleiddir a gadawodd ychydig o dan 940 o staff wasanaethau a reoleiddir yn ystod y flwyddyn. Gan ei bod yn bosibl bod rhai staff wedi cael eu recriwtio **ac** wedi gadael yn ystod y flwyddyn, mae'n anodd bod yn fanwl gywir am yr effaith net ar niferoedd cyffredinol staff. Fodd bynnag, mae'r data yn awgrymu cynnydd o ryw 110 o staff yn ystod y flwyddyn. Dengys **Ffigur 5** fod y mwyafrif o wasanaethau a reoleiddir ledled Cymru wedi recriwtio nifer uwch o staff na'r nifer a adawodd.

**Ffigur 5: Nifer y staff a recriwtiwyd neu a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl awdurdod lleol, 2018<sup>11</sup>**




Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Sir Gâr a Rhondda Cynon Taf a recriwtiodd 12% o'r staff gwasanaethau a reoleiddir a gafodd eu recriwtio yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â 0.4% a gafodd eu recriwtio gan Ferthyr Tudful.

Roedd 19% o'r holl weithwyr a adawodd gyflogaeth gwasanaethau a reoleiddir yn ystod 2018 yn cael eu cyflogi gan Ben-y-bont ar Ogwr, tra bod dim ond 0.4% yn cael eu cyflogi gan Sir y Fflint.


Gadawodd 10% o staff gofal preswyl a staff gofal cartref a oedd mewn swyddi mewn gwasanaethau a reoleiddir ledled Cymru yn ystod 2018. Yn yr un cyfnod, gadawodd 6% o staff gwasanaethau dydd ac arall a 6% o staff gwasanaethau 'gofal cymysg' a reoleiddir. Dengys **Ffigur 6** sut mae canran y staff a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn amrywio yn ôl math a rhanbarth.

<sup>11</sup> Y sawl a recriwtiwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl staff mewn swydd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r sawl a adawodd yn ganran yr holl staff mewn swydd ar ddechrau'r flwyddyn.

**Ffigur 6: Canran y staff a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl math o ddarparwyr, fesul rhanbarth, 2018**



**Ffigur 7: Canran y staff mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2018**




Mae manylion pellach staff mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir am bob math o ddarparwyr gofal ar gael yn [Figure 12](#) o [Atodiad B](#).

Fel y dengys [Error! Reference source not found.](#) uchod, gadawodd 11% o Ddirprwy Reolwyr/ Rheolwyr Cynorthwyol a Gweithwyr Cymdeithasol Cofrestredig gyflogaeth gwasanaethau a reoleiddir yn ystod 2018. Mae hyn yn cymharu â 2% o Reolwyr Gwasanaethau.

Dengys [Ffigur 8](#) y sawl a oedd yn gadael y sector, y sawl a aeth i weithio am ddarparwr gofal arall a'r sawl a ymddeolodd fesul awdurdod lleol. Yng Nghymru, o'r 43% o adawyr yr oedd eu cyrchfan yn hysbys, gadawodd 23% y sector, aeth 11% i weithio am ddarparwr gofal arall ac ymddeolodd 9%.

**Ffigur 8: Canran y staff a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl cyrchfan, fesul awdurdod lleol, 2018**



## Swyddi gwag

Gan Abertawe oedd y ganran uchaf o swyddi gwag a adroddwyd (23%) am wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru. Nid oedd gan Ben-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Chaerdydd unrhyw swyddi gwag. Roedd 77% o'r swyddi gwag a adroddwyd ar draws gwasanaethau a reoleiddir yng Nghymru am Weithwyr Gofal, Swyddogion Gofal neu Gynorthwyyr Gofal. Mae hyn yn amrywio o 100% o swyddi gwag Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Sir Gâr a Mro Morgannwg i 50% o swyddi gwag Sir Benfro. Roedd gan y swyddi gwag a adroddwyd am Staff Eraill y ganran uchaf nesaf ar 9% o'r holl swyddi gwag.



## Nodweddion y gweithlu

Darparwyd data am amrywiol nodweddion y gweithlu am o leiaf 82% o staff gwasanaethau a reoleiddir a gynhwysir yn y dadansoddiad hwn. Gwelir data am y gyfradd ymateb ar gyfer pob nodwedd yn [Error! Reference source not found.8 Atodiad B.](#)


### Rhyw

Roedd y mwyafrif (87%) o staff a weithiai i wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yn fenyw. Roedd ychydig dros un o bob wyth o'r gweithlu yn wryw. Roedd gan wasanaethau a reoleiddir Caerdydd y ganran uchaf o staff gwryw ar 31% tra bod gan wasanaethau a reoleiddir Sir y Fflint y ganran isaf sef 0%.

### Oed

Roedd y mwyafrif (34%) o staff a weithiai i wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yn 51 i 60 mlwydd oed. Adlewyrchwyd hyn ar lefel leol hefyd. Ledled Cymru, roedd 25% o staff gwasanaethau a reoleiddir yn 41 i 50 oed, ac roedd 16% yn 31 i 40 oed. Ar draws darparwyr, ddarparwyr gofal cymysg a gyflogodd 7% o staff darparwyr gofal a gomisiynwyd o dan 25 oed, tra bod 1% o'r staff gofal dydd ac arall yn 25 oed ac yn iau. Roedd 3% o staff gofal dydd ac arall yn 71 oed ac yn hŷn, tra bod 1% neu lai o'r holl staff a gyflogwyd gan fathau eraill o ddarparwyr yn 71 oed ac yn hŷn. Dengys **Ffigur 9** ddadansoddiad oedran staff a gyflogwyd yn ôl math o ddarparwr gofal a gomisiynwyd.

**Ffigur 9: Canran y staff a gyflogwyd gan wasanaethau a reoleiddir yn ôl oedran a math o ddarparwyr, Cymru, 2018**



### Ethnigrwydd

O'r 82% o staff a gyflogwyd gan wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yr adroddwyd eu hethnigrwydd, datganodd 80% eu hethnigrwydd fel Gwyn. Roedd yn well gan 18% o staff beidio â datgan eu hethnigrwydd. Dengys **Tabl 6** y dadansoddiad ar lefel awdurdod lleol o ethnigrwydd staff gwasanaethau a reoleiddir.


**Tabl 6: Canran y staff gwasanaethau a reoleiddir yn ôl ethnigrwydd, yn ôl awdurdod lleol a rhanbarth, 2018**

	%					
	<b>Gwyn</b>	<b>Grwpiau ethnig cymysg/ lluosog</b>	<b>Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig</b>	<b>Du/ Affricanaidd/ Caribiaidd/ Du Prydeinig</b>	<b>Grŵp ethnig arall</b>	<b>Gwell beidio â dweud</b>
Ynys Môn	99	0	1	0	0	0
Gwynedd	99	0	0	0	0	0
Conwy	96	3	0	0	0	0
Sir Ddinbych	100	0	0	0	0	0
Sir y fflint	100	0	0	0	0	0
Wrecsam	98	0	0	1	0	0
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>99</b>	<b>1</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Powys	99	0	1	1	0	0
Ceredigion	56	0	0	1	0	42
Sir Benfro	100	0	0	0	0	0
Sir Gaerfyrddin	80	0	1	0	1	18
<b>Canolbarth &amp; Gorllewin</b>	<b>82</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>1</b>	<b>16</b>
Abertawe	19	0	0	1	0	80
Castell Nedd Port Talbot	-	-	-	-	-	-
Pen y Bont ar Ogwr	97	0	1	0	0	2
<b>Bae'r Gorllewin</b>	<b>55</b>	<b>0</b>	<b>1</b>	<b>1</b>	<b>0</b>	<b>43</b>
Bro Morgannwg	94	2	0	1	1	2
Rhondda Cynon Taf	100	0	0	0	0	0
Merthyr Tudful	100	0	0	0	0	0
Torfaen	93	5	0	1	1	0
Sir Fynwy	74	0	0	0	0	26
Casnewydd	71	1	0	2	0	25
Caerdydd	96	2	0	2	1	0
Blaenau Gwent a Chaerffili	70	0	0	0	0	29
<b>De-Ddwyrain</b>	<b>85</b>	<b>1</b>	<b>0</b>	<b>1</b>	<b>0</b>	<b>13</b>
<b>Cymru</b>	<b>80</b>	<b>1</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>18</b>

## Oriau gweithio

Ledled Cymru, roedd 30% o staff gwasanaethau a reoleiddir yn gweithio'n amser llawn, tra bod 70% yn gweithio'n rhan amser. Roedd hyn yn amrywio o 74% o staff gwasanaethau a reoleiddir yn gweithio'n amser llawn yn Nhorfaen i 6% yn Abertawe. Dengys **Ffigur 10** y ganran ar lefel awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Ffigur 10: Canran y staff gwasanaethau a reoleiddir yn ôl oriau a weithiwyd, yn ôl awdurdod lleol, 2018**



Gwelir manylion pellach am staff mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir am bob math o ddarparwr gofal yn **Figure 12a** **Error! Reference source not found.** **Atodiad B.**

## Statws cyfundebar

Roedd 80% o staff gwasanaethau a reoleiddir yng Nghymru ar gcontractau parhaol. Roedd hyn yn amrywio o 100% o staff ym Merthyr Tudful i 48% yn Abertawe.

Gwelir manylion pellach am statws contractiol staff am bob math o ddarparwr gofal yn **Ffigur 14** o **Atodiad B.**

## Statws anabled


Nododd 1% o'r staff gwasanaethau a reoleiddir a ymatebodd eu bod yn ystyried bod ganddynt anabled. Roedd hyn yn amrywio o 1.4% o staff yng Nghonwy, Ceredigion a Chastell-nedd Port Talbot i 0% mewn chwe awdurdod lleol arall.

## Iaith

Yng Nghymru, gallai 12% of staff mewn gwasanaethau a reoleiddir gyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod llai na 1% o staff heb y Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf.

## Atodiad A – Y ffurflen casglu data

Cafodd y ffurflenni casglu data eu rhannu ag awdurdodau lleol yn Nhachwedd 2018. Cliciwch ar y ddelwedd isod, lle gallwch weld enghraifft o'r ffurflen. Sylwch mai fel enghraifft yn unig y mae Ynys Môn wedi cael ei defnyddio ac nad yw'r ffurflen yn cynnwys unrhyw ddata.



**Cyngor Sir Ynys Môn**

**Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP)**  
**Gweithlu Casglu Data 2018**

[Canllawiau](#)

DYLAIR CASGLIAD DATA HWN GYNNWYS DIM OND Y CYFLOGEION HYNNY SY'N GWEITHIO O FEWN Y BWRDEISTREF SIROL.

Defnyddiwch yr hyper-ddolenni ar waelod pob tudalen i lywio i'r dudalen nesaf.

Enw'r sefydliad		V
Cyfeiriad y sefydliad		V
Enw'r cwmni rhiant		Gwirthwch

**Manylion cysyllt ar gyfer y berson sy'n cwblhau'r ffurflen**


Enw llawn		V
Teitl swydd		V
Rhif ffon		V
Cyfeiriad e-bost		V

**Manylion y rheolwr cofrestredig (os yw'n wahanol i'r person sy'n llenwi'r ffurflen)**

Enw'r rheolwr cofrestredig		Gwirthwch
Rhif ffon		Gwirthwch
Cyfeiriad e-bost		Gwirthwch

Gallwch llywioch drwy'r ffurflen gan ddefnyddio'r hyperddolenni glas o dan, neu drwy glicio ar ddyb y weithlen berthnasol.

Adran	Oes unrhyw wallau dilysu?
Hafan	Oes
<a href="#">1. Manylion y darparwr</a>	Oes
<a href="#">2. Cymwysterau</a>	Oes
<a href="#">3. Peirysio a Chadw</a>	Oes
<a href="#">4. Gweithlu</a>	Oes



[Gweler fy mhroffil gweithlu](#)

Oes oes gennych unrhyw ymholiadau am y ffurflen cysylltwech â'r Uned Ddata ar: [PIEnquiries@uneddatacymru.gov.uk](mailto:PIEnquiries@uneddatacymru.gov.uk)

Sylwadau cyffredinol

[Nesaf](#)

## Atodiad B - Tablau ychwanegol


Tabl 7: Nifer gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir a arolygwyd

	<b>2018</b>
Ynys Môn	8
Gwynedd	9
Conwy	6
Sir Ddinbych	7
Sir y fflint	1
Wrecsam	6
Gogledd Cymru	37
Powys	17
Ceredigion	6
Sir Benfro	3
Sir Gaerfyrddin	12
Canolbarth & Gorllewin	38
Abertawe	17
Castell Nedd Port Talbot	16
Pen y Bont ar Ogwr	13
Bae'r Gorllewin	46
Bro Morgannwg	5
Rhondda Cynon Taf	20
Merthyr Tudful	5
Torfaen	3
Sir Fynwy	7
Casnewydd	10
Caerdydd	3
Blaenau Gwent a Chaerffili	20
De-Ddwyrain	73
<b>Cymru</b>	<b>194</b>


**Tabl 8: Canran y ffurflenni a ddychwelwyd ar gyfer pob nodwedd, Cymru**

	%
	<b>2018</b>
Ethnigrwydd	82
Oriau a weithiwyd	87
Math o gontract	90
Rhyw	90
Oed	90


**Ffigur 11a: Canran y staff gofal preswyl a gyflogwyd gan wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/ a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2018**




**Ffigur 11b: Canran y staff gofal cartref a gyflogwyd gan wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/ a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2018**




**Ffigur 11c: Canran y staff gofal dydd ac arall a gyflogwyd gan wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/ a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2018**



**Ffigur 11ch: Canran y staff 'gofal cymysg' a gyflogwyd gan wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/ a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2018**




**Figure 12a: Canran y staff gofal preswyl mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2018**






**Ffigur 12b: Canran y staff gofal cartref mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2018<sup>12</sup>**




**Ffigur 12c: Canran y staff gofal dydd a gofal arall mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2018**




<sup>12</sup> Gadawodd 100% o'r Staff Nyrsio Cogfrestredig a gynhwywyd yn y dadansoddiad (un aelod o staff) gyflogaeth gwasanaeth rheoleiddiedig yn ystod 2018. Mae'r ffigur hwn wedi cael ei hepgor o'r siart er mwyn peidio ag ystumio'r siart.


**Ffigur 12ch: Canran y staff 'gofal cymysg' mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2018**




**Ffigur 13a Canran y staff gofal preswyl mewn gwasanaethau a reoleiddir yn ôl yr oriau a weithiwyd, Cymru, 2018**




**Ffigur 13b: Canran y staff gofal cartref mewn gwasanaethau a reoleiddir yn ôl yr oriau a weithiwyd, Cymru, 2018**




**Ffigur 13c: Canran y staff gofal dydd a gofal arall mewn gwasanaethau a reoleiddir yn ôl yr oriau a weithiwyd, Cymru, 2018**



**Ffigur 13ch: Canran y staff 'gofal cymysg' mewn gwasanaethau a reoleiddir yn ôl yr oriau a weithiwyd, Cymru, 2018**



**Ffigur 14: Statws contractiol staff gwasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir yn ôl math o wasanaeth, Cymru, 2018**



## Atodiad C – Ein methodoleg briodoli

Cafodd ein methodoleg briodoli ei datblygu ar gyfer casgliad peilot 2013 ac mae'n cael ei hadolygu bob blwyddyn. Mae hyn yn golygu adolygu'r data a gyflwynwyd am unrhyw batrymau perthnasol, ac wrth sefydlu hyn, y lefel priodoli yn ôl cyfraddau ymateb awdurdodau lleol unigol.

Fel yn 2017, seiliwyd y gwaith priodoli ar gyfer 2018 ar y gwerthoedd cyfartalog ar lefel genedlaethol a'u cymhwyso ar lefel yr awdurdod lleol. Gan nad oedd y cyfraddau ymateb i rai awdurdodau lleol yn ddigonol i adrodd ar lefel awdurdod lleol, rhoddir y canlyniadau ar lefel ranbarthol. Roedd y priodoli wedi ei seilio ar y math o ddarparwr a maint y corff.

Er mwyn sicrhau'r wybodaeth angenrheidiol am y darparwyr gofal a gomisiynwyd a oedd ar goll i allu priodoli data eu gweithlu, gofynnwyd i awdurdodau ddarparu gwybodaeth ategol sef amcangyfrif o faint pob darparwr gofal coll a'r math o wasanaeth maent yn ei ddarparu

Data Cymru yn rhan o deulu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae gennym gysylltiadau gweithio cadarn ac uniongyrchol â llywodraeth leol ers tro. Am flynyddoedd lawer rydym wedi bod yn cefnogi ymdrechion i wella drwy amrediad o gynhyrchion a gwasanaethau a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer llywodraeth leol. Mae llawer o'r rhain wedi cael eu defnyddio yn ogystal i gefnogi gwelliannau mewn sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat eraill.

Nod ein hystod o wasanaethau arbenigol yw eich helpu chi i ddod o hyd i wybodaeth a'i defnyddio'n effeithiol.

Am fwy o wybodaeth ewch i [www.data.cymru](http://www.data.cymru) neu ffoniwch 029 2090 9500.